



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

CYNLLUN YMWELIADAU
ANNIBYNNOL Â DALFEYDD

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2023/24

Cynnwys

1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.....	2
2. Cyflwyniad.....	3
3. Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.....	3
4. Rotâu Ymwelwr Annibynnol â'r Ddalfa.....	4
I. Nifer Ymweliadau a Galwadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa .	4
5. Data Ymweld.....	5
I. Nifer yr Ymweliadau	5
II. Nifer yr unigolion a gedwir yn gaeth.....	5
III. Amseroedd ymweliadau	6
6. Materion a Godwyd.....	7
7. Hyfforddiant a Digwyddiadau	10
8. Fframwaith Sicrhau Ansawdd	10
9. Agor y Ddalfa yn Dafen.....	12
10. Cynllun Peilot Dillad Gwrth-rwygo	12
11. Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa	14
12. Datblygiadau yn y Dyfodol	15
13. Diddordeb mewn bod yn Ymwelwr Annibynnol â'r Ddalfa?	15
Atodiad A:	16
Atodiad B	18


1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Deilliodd Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd o adroddiad yr Arglwydd Scarman ar derfysgoedd Brixton ym 1981, ac argymhellodd y dylid cyflwyno system o arolygu annibynnol, dirybudd o weithdrefnau a chadw mewn gorsafoedd heddlu gan aelodau o'r gymuned leol. Ffurfiolwyd hyn yn 2002 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu sy'n gosod dyletswydd statudol ar bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i weithredu Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Mae Ymweliadau â Dalfeydd wedi cyflwyno tryloywder ym mhrosesau dalfeydd yr heddlu. Mae gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVs) rôl hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod hawliau dynol unigolion a gedwir yn gaeth yn cael eu cynnal a sicrhau y cydymffurfir â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Sefydlwyd Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn ardal Dyfed-Powys yn 2001. Ers ei gyflwyno, mae miloedd o ymweliadau wedi'u gwneud â dalfeydd ar draws ardal yr heddlu, gan sicrhau bod unigolyn a gedwir yn gaeth yn cael eu trin â pharch ac urddas beth bynnag fo'r rheswm dros eu cadw.

Mae gwirfoddolwyr fel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn chwarae rhan bwysig yn fy nghefnogi i wneud fy ngweithgarwch sicrwydd a chraffu. Mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad yn ein helpu i feithrin ymddiriedaeth a gwella ein gwasanaethau. Rydym yn hynod ddiolchgar am eu gwaith caled a'r effaith gadarnhaol y maent yn ei gael ar ein cymuned. Mae 2023-2024 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'n Hymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth barhaus a'u gwaith caled.



Comisiynydd yr Heddlu a
Throseddu



2. Cyflwyniad

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa (ICVs) yn wirfoddolwyr o'n cymuned leol sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu mewn parau, yn ddirybudd, i wirio lles unigolion a gedwir yn gaeth, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd yn cynnal gwiriadau ar amgylchedd y ddalfa i sicrhau ei fod yn ddiogel ac o safon dda. Gall Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd gael mynediad i gofnodion dalfa os oes ganddynt unrhyw bryderon pellach mewn perthynas â'r unigolyn a gedwir yn gaeth.

Os nodir unrhyw bryderon, bydd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn codi'r mater â rhingyll y ddalfa i ddechrau ac yna trwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh), i'w trafod ag uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am faterion y ddalfa.

Darperir diweddariadau ar gynnydd a wnaed mewn perthynas â materion sy'n peri pryder i SCHTh mewn modd amserol. Mae unrhyw themâu cyffredinol yn cael eu cyflwyno i waith y byrddau llywodraethu priodol er mwyn iddynt ystyried camau pellach i'w cymryd os yw'n briodol. Mae rôl yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cynnig amddiffyniad i unigolion a gedwir yn gaeth a thryloywder prosesau cadw.


3. Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 roedd 16 o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar y cynllun, wedi'u gwasgaru ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys.

Roedd tri Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi ymddiswyddo o'r cynllun rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Cymerodd tri o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa seibiant o'r cynllun yn ystod y cyfnod hwn, ac roedd 16 yn parhau ar ein system fel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y cynllun yn cynrychioli demograffeg Dyfed-Powys, ond yn hollbwysig, mae gwirfoddolwyr sy'n dangos gwir ymrwymiad a diddordeb yn y cynllun yn cael eu penodi i'r tîm. Mae 80% o wirfoddolwyr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn 55 oed ac yn hŷn. Cydnabuwyd nad yw hyn yn cynrychioli demograffig ardal Dyfed a Phowys; ond mae hwn wedi bod yn darged ar gyfer ymgyrch recriwtio eleni. Mae rheolwyr y cynllun wedi bod yn mynychu cyfarfodydd grwpiau cymunedol, ysgolion a cholegau ar draws Dyfed-Powys a sioeau cenedlaethol fel Eisteddfod yr Urdd i hyrwyddo ac addysgu aelodau'r cymunedau am y cynllun.

Ffigur 1: Rhywedd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa



Ffigur 2: Oed Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Oed	Canran 2022/2023	Canran 2023/2024
18-24	5%	6%
25-34	10%	11%
35-44	0%	0%
45-54	5%	0%
55-64	25%	33%
65-74	35%	28%
75+	20%	22%

4. Rotâu Ymwelwr Annibynnol â'r Ddalfa

I. Nifer Ymweliadau a Galwadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Dafen, Aberystwyth, Hwlfordd, Aberhonddu a'r Drenewydd yw'r prif dalfeydd yn ardal Dyfed-Powys.

Ymwelir â Dafen, Aberystwyth a Hwlfordd unwaith yr wythnos ac ymwelir ag Aberhonddu a'r Drenewydd bob pythefnos. Mae hyn oherwydd eu maint a'u defnydd amrywiol.

Mae un ddalfa arall yn ardal Dyfed-Powys, sef Aberteifi. Mae'n cael ei ddefnyddio fel dalfa gorlif a phan fo'n rhaid cau dalfa ar gyfer gwaith adnewyddu. Nid yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ymweld fel mater o drefn; ond, pe bai'r ddalfa hon yn cael ei defnyddio, bydd SCHTh yn cael ei hysbysu a gall drefnu i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld os oes angen. Yn y cyfnod hwn caeodd dalfeydd Hwlfordd ac Aberystwyth am gyfnod o waith adnewyddu; ac felly, ymwelodd ein Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â'r ddalfa yn Aberteifi gan ei bod yn cael ei defnyddio fel lle amgen.

Y ddalfa	Capasiti'r celloedd a'r ystafelloedd cadw (a ddefnyddir ar gyfer cadw plant)
Dafen	18 cell 2 ystafell gadw
Hwlfordd	17 cell 2 ystafell gadw

Aberystwyth	7 cell 1 ystafell gadw ac 1 ystafell sych
Aberhonddu	8 cell 1 ystafell gadw
Y Drenewydd	9 cell 1 ystafell gadw
Aberteifi	6 cell

Rhoddir rota i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n neilltuo pâr o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar gyfer ymweliad. Darperir rotas gan reolwyr y cynllun sy'n caniatáu i'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drefnu diwrnod ac amser yr ymweliad o fewn yr wythnos/pythefnos penodedig.

Yng nghyfarfodydd chwarterol Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, rhoddir data i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am eu hymweliadau diweddar yn ogystal â phroffil llif niferoedd yn y ddalfa. Gofynnir iddynt ystyried y data hyn wrth drefnu ymweliadau i sicrhau y cynhelir ymweliadau ar ddiwrnodau ac amseroedd amrywiol yn ystod yr wythnos. Penderfynwyd cyfuno cyfarfodydd panel fel bod pob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn bresennol. Bydd cyfarfodydd y panel ar gyfer 2024/2025 nawr yn canolbwyntio ar yr adroddiadau chwarterol y mae SCHTh yn eu cyhoeddi. Bydd hyn yn sicrhau y gall yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol ac ymateb i sylwadau yr heddlu.

Mae gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd yr opsiwn o ymweld â dalffa mewn ardal panel gwahanol. Mae dau o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar hyn o bryd yn gwasanaethu dwy wahanol ddalfa.

5. Data Ymweld

I. Nifer yr Ymweliadau

Yn ystod 2023-2024, cynhaliwyd cyfanswm o 129 o ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â dalfeydd ledled ardal yr heddlu; ac yn ystod y cyfnod hwnnw roedd 377 o unigolion a gedwir yn gaeth yn y ddalfa. O'r unigolion a gedwir yn gaeth hyn, cydsyniodd 168 i gael ymweliad ac arsylwyd ar 105.

II. Nifer yr unigolion a gedwir yn gaeth


Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cadwyd cyfanswm o 8,557 o unigolion yn gaeth yn y dalfeydd ledled Dyfed-Powys. O'r rhain, roedd 440 yn y ddalfa ar adeg ymweliadau'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â 45% o'r unigolion a gedwir yn gaeth a oedd yn bresennol.

<u>Y ddalfa</u>	<u>Nifer yr unigolion a gedwir yn gaeth Ebrill 23 - Mawrth 24</u>	<u>Nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa</u>
Rhydaman	24	11
Dafen	109	53
Hwlfordd	113	52
Aberystwyth	68	25
Aberteifi (Dim ond yn cael ei ddefnyddio fel gorlif)	34	14
Aberhonddu	12	6
Y Drenewydd	17	7


Mae'r data uchod, yn y golofn ar gyfer Nifer yr unigolion a gedwir yn gaeth, yn cynrychioli nifer y rheini a oedd yn y ddalfa yn ystod ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

III. Amseroedd ymweliadau

Ffigur 5: Nifer y galwadau a'r ymweliadau rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024



Ffigur 6: Nifer yr ymweliadau rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024



Mae'n fwy cyffredin i'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld yn y bore, sef yr amser prysuraf yn y ddalfa, ac felly'n cynyddu'r siawns o weld cymaint o unigolion a gedwir yn gaeth â phosibl. Hefyd ni all Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ymweld ag unigolion a gedwir yn gaeth pan fydd yn cysgu neu'n feddw; felly, mae boreau yn aml yn ddelfrydol. Ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau ar ôl 9pm gan fod unigolion a gedwir yn gaeth yn dueddol o fod yn cysgu ac felly mae'n debygol y bydd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa lai o garcharorion i siarad â nhw yn ystod oriau hwyrach. Fodd bynnag, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ceisio cynnal ymweliadau yn ystod amrywiaeth o adegau gan gynnwys penwythnosau yn ogystal â dyddiau'r wythnos i sicrhau bod y dyddiau a'r amseroedd y maent yn ymweld yn anrhagweladwy. Mae hyn yn sicrhau uniondeb y cynllun.

6. Materion a Godwyd

Yn ystod eu hymweliadau mae'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn gwirio lles yr unigolion a gedwir yn gaeth yn ogystal â'r amodau y cânt eu cadw ynddynt. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ymwybodol o'r hawliau a roddir i unigolion a gedwir yn gaeth yn y ddalfa yn unol â chod C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad B.

Disgwylir i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafod unrhyw fân faterion lles neu amgylcheddol â rhingyll y ddalfa neu'r swyddog sy'n dod gyda nhw ar adeg yr ymweliad.

Mae unrhyw faterion na ellir eu datrys yn ystod ymweliad, neu y mae'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn teimlo bod angen delio â nhw ar lefel uwch yn cael eu

hadrodd i reolwyr y cynllun yn SCHTh. Mae'r adroddiadau hyn bellach wedi symud o gopiâu papur i ffurflenni electronig, gyda'r bwriad o leihau'r papur a ddefnyddir yn amgylchedd y swyddfa a sicrhau dull mwy di-oed i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gyflwyno adroddiadau i reolwyr y cynllun.

Yna caiff y rhain eu cofnodi a'u holrhain gan Brif Arolygydd Dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys neu'r Arolygwyr Dalfeydd perthnasol. Yna maent yn ystyried y materion, yn rhoi diweddariad / adroddiad i weinyddwr y cynllun ac yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae sylwadau ac arsylwadau cadarnhaol hefyd yn cael eu nodi ar y ffurflenni ac yn cael eu hadrodd yn ôl i uwch staff y ddalfa.

Mae rheolwyr y cynllun yn hysbysu Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa o ganlyniad eu hadroddiad, a chynhelir trafodaethau pellach ar y materion yng nghyfarfod nesaf Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Os bydd angen ystyried unrhyw faterion ar lefel uwch, cânt eu trafod yn y bwrdd llywodraethu priodol, gan gynnwys y Bwrdd Plismona lle mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.

Isod mae rhestr o bryderon a godwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 ynghyd ag ymateb ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn pob pryder.

Pryder a nodwyd	Cynnydd a wnaed
Oedi yn y ddarpariaeth gofal iechyd ar gyfer y ddalfa.	Mae telefeddygaeth wedi'i gyflwyno i helpu i ddarparu gofal ar gyfer unigolion a gedwir yn gaeth, sy'n caniatáu i ymarferydd meddygol cymwysedig werthuso anghenion yr unigolion hyn o bell. Bu gwelliant yn nifer y staff gofal iechyd sydd ar gael i ddarparu ar gyfer y galw am wasanaethau, ac mae niferoedd ychwanegol yn cael eu cyflymu drwy'r broses fetio. Mae'r heddlu yn gweithio i gefnogi'r darparwr gofal iechyd i recriwtio gweithwyr ychwanegol gan fod y contract presennol allan i dendr. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn parhau i fonitro.
Prinder staff.	Rhoddwyd sicrwydd bod hyn wedi'i unioni, roedd y problemau o ganlyniad i newid staff, gwyliau, salwch ac ati.

	Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn parhau i fonitro a thrafodir pryderon yng nghyfarfodydd Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.
Mae opsiwn 1 galwadau a wneir gan aelodau'r cyhoedd sy'n ffonio'r gwasanaeth 101 yn achosi anawsterau i staff dalfeydd.	Mae'r mater wedi'i ddatrys, gan fod yr opsiwn ar gyfer cadw yn gaeth wedi'i symud o opsiwn 1 i opsiwn gwahanol.
Nodwyd problemau atgyweirio	Mae materion atgyweirio a nodwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gan gynnwys seinwyr yn y celloedd wedi torri, goleuadau diffygiol mewn celloedd a chloch drws diffygiol (sy'n effeithio ar ymwelwyr ar alwad gan gynnwys oedolion priodol a chyfreithwyr ar ddyletswydd i hysbysu'r ddalfa eu bod yn bresennol) i gyd wedi'u cwblhau.
Storio eitemau crefyddol	Roedd y dull o storio eitemau crefyddol wedi'i nodi gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa fel pryder, gan nodi y dylai pob testun crefyddol a matiau gweddio gael eu lapio a'u storio'n gywir, nid ochr yn ochr ag eitemau storio eraill fel esgidiau, papur toiled neu unrhyw eiddo personol arall. Amlygwyd hyn i'r ddalfa briodol, a ddatrysodd y mater hwn yn brydlon. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn parhau i fonitro.
Daeth Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar draws problemau gyda Swyddogion y Ddalfa a Thywys: <ul style="list-style-type: none"> Nid oedd un Swyddog y Ddalfa a Thywys yn gwbl ymwybodol o'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Ymddengys nad oedd Swyddog y Ddalfa a Thywys yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau pan roedd yr Ymwelwyr 	Mae hyn yn cael ei ddatblygu a'i fonitro gyda chydweithrediad arolygydd y ddalfa a rheolwyr y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Mae rheolwyr y cynllun SCHTh hefyd wedi darparu mewnbwn i staff dalfeydd newydd ar y cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Mae hyn wedi helpu i adeiladu eu gwybodaeth am y cynllun ac wedi gwella cysylltiadau.

Annibynnol â'r Ddalfa yn cynnal eu hymweliad â'r unigolyn a gedwir yn gaeth.	
Dosbarthu papur toiled ac esgidiau cynfas i unigolion a gedwir yn gaeth.	Mynegwyd hyn yn ôl i holl arolygwyr y ddalfa sydd bellach wedi unioni'r mater. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn parhau i fonitro.

“Mae'n galonogol gweld yr effeithiau cadarnhaol y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn eu cael yn y ddalfa o'u hymweliadau. Mae'n gysur gwybod bod staff ein dalfeydd yn teimlo bod Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaethau yn y ddalfa.” Prif Arolygydd Dros Dro Jenna Jones
(Pennaeth Dalfeydd, Heddlu Dyfed-Powys)

7. Hyfforddiant a Digwyddiadau

- Cynhaliwyd diwrnod cynllunio Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ar 18 Hydref 2023 ym mhencadlys Heddlu Dyfed Powys. Daeth y panel ynghyd i drafod y cynllun â rheolwyr newydd y cynllun o SCHTh. Roedd y diwrnod yn canolbwyntio ar rolau a chyfrifoldebau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, trafodaethau am y polisi gwrth-hiliaeth newydd, mewnbwn gan Credydau Amser Tempo Cymru, a gorffennwyd gyda chyfarfod panel ochr yn ochr â chynrychiolwyr o ddalfeydd.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd Panel Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn rhithwir trwy Microsoft Teams ar gyfer yr ail gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2023. Yna gwnaed y penderfyniad i gyfuno pob maes ar gyfer cyfarfod panel cyfan ym mis Mawrth 2023.
- Ym mis Mai 2023 gwahoddwyd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i fynychu cyfarfod Bwrdd Atebolrwydd Plismona a gynhaliwyd yn Llanelli. Mae'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth yn erbyn blaenoriaethau'r Comisiynydd a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Gorffennwyd y cyfarfod gyda thaith o amgylch dalffa newydd Dafen.

8. Fframwaith Sicrhau Ansawdd

Ym mis Rhagfyr 2023 dyfarnwyd dyfarniad Aur i gynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gan y

Fframwaith Sicrhau Ansawdd (QAF), a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Cafodd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd ei redeg gyntaf gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gyda chynlluniau yn 2019, ac mae'n fframwaith ar gyfer y cynlluniau sy'n cael eu rhedeg yn lleol i'w helpu i wneud y canlynol:

- Myfyrio ar sut maent yn cydymffurfio â'r cod ymarfer, y ddeddfwriaeth sy'n sail i ymweliadau â dalfeydd.
- Dathlu meysydd cadarn.
- Hyrwyddo ymweliadau â dalfeydd a'r cyflawniadau y maent wedi'u gwneud.
- Gwella perfformiad cynlluniau.
- Cynyddu lefelau rhannu arferion da ac adnoddau ar draws cynlluniau.

I ennill dyfarniad, rhaid i reolwyr cynllun asesu a darparu tystiolaeth ar gyfer lluo o feini prawf o dan y themâu canlynol:

- recriwtio a hyfforddiant,
- rheoli gwirfoddolwyr,
- cyfathrebu,
- dal yr heddlu i gyfrif,
- tryloywder a thawelwch meddwl y cyhoedd
- lles unigolion a gedwir yn gaeth.

Mae gan bob maes nifer o feini prawf y mae'n rhaid i gynlluniau eu bodloni; po uchaf yw'r lefel, y mwyaf o feini prawf y mae angen i reolwyr cynllun eu bodloni er mwyn eu cyrraedd. Mae angen i gynlluniau gwblhau pob maen prawf o dan bob lefel cyn symud ymlaen i'r nesaf. Mae pob lefel yn gofyn am hunanasesiad a chymeradwyaeth gan eu rheolwyr llinell priodol. Wrth fynd am ddyfarniad Aur neu Arian, bydd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn hapsamplu i sicrhau bod meini prawf wedi'u bodloni, ac ar gyfer dyfarniad Platinwm, mae'r gymdeithas yn hapsamplu ac asesu'r holl dystiolaeth.

Mae'r dyfarniad aur yn golygu bod gan y cynlluniau safon ragorol o ymweliadau â dalfeydd ac rydym yn hynod falch o fod wedi cyrraedd y lefel hon unwaith eto.



9. Agor y Ddalfa yn Dafen

Ar 26 Mai 2023 agorodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl y ddalfa a'r ganolfan plismona newydd yn Sir Gaerfyrddin yn Nafen, Llanelli yn swyddogol. Croesawyd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i fynychu'r digwyddiad agoriadol. Yr ddalfa hon yw'r un mwyaf yn rhanbarth Dyfed-Powys a bydd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ymweld â hi bob wythnos.



10. Cynllun Peilot Dillad Gwrth-rwygo

Yn ystod 2023, parhaodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â chynllun peilot dillad gwrth-rwygo gyda Heddlu Dyfed-Powys a Chymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

Adolygwyd y cofnodion gan ddefnyddio'r sgôr coch, oren, gwyrdd canlynol:

Rheswm dros y sgôr	Camau gweithredu dilynol
Cwymplen yn cael ei defnyddio, sail resymegol lawn dros ddefnyddio siwt, y gellir ei chyfiawnhau ac sy'n gymesur â'r risg a berir.	Nid oes angen unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.
Tynnwyd y siwt i ffwrdd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.	
Defnyddiwyd dulliau dad-ddwysáu clir, eitemau tynnu sylw ac ati i liniaru risg yr unigolyn a gedwir yn gaeth rhag hunan-niweidio bwriadol.	

Ychydig o gyfiawnhad neu gyfiawnhad aneglur dros ddefnyddio'r siwt.	Cyngor/hyfforddiant pellach i staff y ddalfa.
Gwybodaeth annigonol i bennu cymesuredd defnyddio'r siwt.	
Gadawyd yr unigolyn a gedwir yn gaeth yn y siwt am gyfnodau hir o amser.	
Defnyddiwyd cwymplen y siwt ond dim gwybodaeth bellach.	Angen archwiliad pellach o ran defnydd/sail y rhesymeg. Achosion i'w codi gydag arolygydd y ddalfa.
Defnyddiwyd siwt yn absenoldeb gwybodaeth risg ond dim sail rhesymeg arall.	
Defnyddiwyd siwt trwy orfodi heb unrhyw wybodaeth bellach.	
Cwymplen heb ei defnyddio, gwybodaeth am siwt wedi'i darganfod fel rhan o adolygu cofnodion dalfa arferol gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa	

Cymerwyd y sgoriau canlynol o'r cofnodion a adolygwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024:

Gwyrdd	14
Melyn	0
Coch	1

Yn ystod mis Mawrth 2023, gweithredodd Heddlu Dyfed-Powys system wybodaeth newydd yr heddlu, Niche. Oherwydd y newid hwn, ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch peilot pellach.

Yn dilyn gwerthusiad interim o'r cynllun peilot, gwnaeth Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gyfres o argymhellion i'r Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona. Roedd yr argymhellion yn cynnwys y canlynol:

- Bod y Swyddfa Gartref yn ystyried ehangu pwynt 8.5 neu ychwanegu pwynt ychwanegol at god C a H Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i gynnwys nad yw dillad unigolion a gedwir yn gaeth i gael eu tynnu oherwydd risg tybiedig yn unig.
- Bod y Swyddfa Gartref yn rhoi adroddiadau gorfodol ar waith ar y defnydd o ddillad risg arbennig (yn flaenorol yn cael eu hadnabod yn ffurfiol fel dillad gwrth-rhwygo) fel is-set o ddata defnyddio grym.

- Sicrhau bod pob un o'r heddluoedd, yn ddi-oed, yn gweithredu swyddogaeth adroddadwy ar gyfer defnyddio dillad gwrth-rwygo ar systemau dalfeydd er mwyn caniatáu mwy o graffu.
- Dylid gwneud pob un o'r heddluoedd yn ymwybodol bod defnyddio dillad gwrth-rwygo yn absenoldeb gwybodaeth am risg oherwydd nad yw'r unigolyn a gedwir yn gaeth yn cymryd rhan yn y cwestiynau asesu risg, yn amhriodol ac y dylai ddod i ben.
- Bod Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn cytuno i weithio tuag at ddileu'r defnydd o ddillad gwrth-rwygo yn nalfa'r heddlu, o blaid defnyddio arsylwadau effeithiol, technegau dad-ddwysáu a rheoli risg deinamig.
- Bod yr Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar gyfer y ddalffa yn cael eu diweddarau i adlewyrchu y dylai heddluoedd byth ddefnyddio dillad gwrth-rwygo, trwy orfodi, yn absenoldeb gwybodaeth risg.
- Bod llawlyfr ystadau'r Coleg Plismona yn sicrhau bod dyluniad y ddalffa yn adlewyrchu'r defnydd gorau posibl o deledu cylch cyfyng fel y gellir rheoli arsylwadau yn ddigonol heb fod angen tynnu dillad o dan unrhyw amgylchiadau.

“O ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd a Heddlu Dyfed-Powys, roedd y Coleg Plismona'n gallu diweddarau ei Arferion Proffesiynol Awdurdodedig... mae'r diweddariad hwn yn rhoi eglurder ynghylch pryd y mae'n briodol defnyddio dillad gwrth-rwygo a phryd i beidio.”
Tony Maggs (Arweinydd Dalfeydd, Coleg Plismona)

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa yn parhau i adolygu achosion dillad gwrth-rwygo trwy Banel Craffu Annibynnol y Ddalffa sy'n cyfarfod bob dau fis.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun peilot ar gael yma: [Dillad Gwrth-rwygo - Gwerthusiad Interim o'r Cynllun Peilot ar y Cyd - Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd](#)

[Panel Craffu Annibynnol y Ddalffa](#)

11. Panel Craffu Annibynnol y Ddalffa

Ym mis Mawrth 2024 rhoddwyd Panel Craffu Annibynnol y Ddalffa ar waith i ddisodli adolygu cofnodion dalffa.

Diben cyffredinol Panel Craffu Annibynnol y Ddalffa yw sicrhau bod gweithdrefnau cadw'n gaeth a dalffa'r heddlu yn Nyfed-Powys yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol. Mae'r panel yn cynnwys gwirfoddolwyr presennol o fewn SCHTH gan gynnwys aelodau o'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2023 pan fu'r panel yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn y ddalfa. Bydd pob cyfarfod yn canolbwyntio ar un mater penodol a bydd gwirfoddolwyr yn cael mewnbwn gan yr Heddlu a phartneriaid allanol i'w cynorthwyo i ddeall. Yna bydd adroddiadau o'r cyfarfodydd yn cael eu rhannu a'u cyhoeddi ar wefan SCHTh.

12. Datblygiadau yn y Dyfodol

- Cynllun Strategaeth Recriwtio i gynorthwyo natur amrywiol y gwirfoddolwyr i sicrhau bod y cynllun yn adlewyrchu'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu.
- Caniatáu i gynlluniau gwirfoddolwyr orgyffwrdd.
- Sefydlu sianel Teams ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i greu ffurflen ar gyfer eu hadnoddau.
- Rheolwyr y cynllun i barhau i ddarparu mewnbwn i hyfforddiant dalfa'r heddlu er mwyn helpu i ddeall y cynllun a meithrin cysylltiadau cadarnhaol â staff y ddalfa.
- Adolygiad llawn o lawlyfr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i'w gynnal. Bydd rheolwyr y cynllun yn cael adborth gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ac yn gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

13. Diddordeb mewn bod yn Ymwelwr Annibynnol â'r Ddalfa?

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwirfoddoli i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a dod yn Ymwelwr Annibynnol â'r Ddalfa yn ardal Dyfed-Powys, neu os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i: [Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys \(dyfedpowys-pcc.org.uk/cy\)](https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy)

Neu cysylltwch ag Ellen neu Tom ar 01267 226440

Neu e-bostiwch: OPCCQualityofService@dyfed-powys.police.uk

Atodiad A:

Mae hawliau unigolion a gedwir yn gaeth o dan God C, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, wedi'u crynhoi isod. Dyma'r wybodaeth a ddarperir i unigolion a gedwir yn gaeth yng ngorsaf yr heddlu. Mae manylion llawn ar gael yng Nghod Ymarfer C deddf yr heddlu.

1. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych am gael cyfreithiwr i'ch helpu yn ystod eich amser yng ngorsaf yr heddlu. Mae hwn yn rhad ac am ddim.

2. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych am i rywun gael gwybod ble rydych chi. Mae hwn yn rhad ac am ddim.

3. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi am edrych ar eu rheolau – Codau Ymarfer yw'r enw ar y rhain.

4. Dywedwch wrth yr heddlu os oes angen cymorth meddygol arnoch chi. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi'n teimlo'n sâl neu rydych wedi'ch anafu. Mae cymorth meddygol yn rhad ac am ddim.

5. Os gofynnir cwestiynau i chi am drosedd a amheuir, nid oes rhaid i chi ddweud dim. Fodd bynnag, fe allai niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch yn sôn wrth gael eich holi, am rywbeth y byddwch yn dibynnu arno'n ddiweddarach yn y llys. Gall unrhyw beth a ddywedwch gael ei gyflwyno fel tystiolaeth.

6. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthy'ch am y drosedd y maent yn meddwl eich bod wedi'i chyflawni a pham eich bod wedi cael eich arestio ac yn cael eich cadw'n gaeth.

7. Mae'n rhaid i'r heddlu adael i chi neu'ch cyfreithiwr weld cofnodion a dogfennaeth ynglŷn â pham rydych wedi cael eich arestio ac yn cael eich cadw'n gaeth ac am eich amser yng ngorsaf yr heddlu.

8. Os oes angen cyfieithydd arnoch, rhaid i'r heddlu ddod o hyd i un i chi. Gallwch hefyd gael cyfieithu rhai dogfennau penodol. Mae hwn yn rhad ac am ddim.

9. Dywedwch wrth yr heddlu os nad ydych yn Brydeiniwr a'ch bod am gysylltu â'ch llysgenhadaeth neu gonswl neu rydych am iddynt gael gwybod eich bod yn cael eich cadw'n gaeth. Mae hwn yn rhad ac am ddim.

10. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthy'ch am ba mor hir y gallant eich cadw'n gaeth.

11. Os cewch eich cyhuddo a bod eich achos yn mynd i'r llys, bydd gennych chi neu'ch cyfreithiwr hawl i weld tystiolaeth yr erlyniad cyn y gwrandawriad llys.

Atodiad B

Mae'r gwiriadau amgylcheddol y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn eu cynnal wrth ymweld â'r Ddalfa fel a ganlyn:
- Gwirio bod y celloedd yn lân (y celloedd wedi'u meddiannu a'r celloedd gwag lle bo modd).
- Gwirio bod y gegin a'r man paratoi bwyd yn lân ac yn daclus.
- Gwirio bod pob man arall yn y ddalfa yn lân ac yn daclus.
- Gwirio bod y gwres, y golau a'r awyru yn ddigonol.
- Gwirio bod yr ystafell feddygol wedi'i chloi os nad oes gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol.
- Gwirio bod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd.
- Gwirio bod cyflenwad digonol o ddillad gwely, siwtiau gwrth-rwygo a dillad sbâr.
- Gwirio bod digon o stoc o fwyd.
- Gwirio bod y ddalfa yn glir o unrhyw beryglon iechyd a diogelwch gweladwy.
- Gwirio bod y seiniwr celloedd a'r systemau teledu cylch cyfyng yn gweithio'n iawn.
- Gwirio bod deunyddiau crefyddol ar gael yn rhwydd i'r unigolion a gedwir yn gaeth.
- Gwirio nad oes unrhyw bwyntiau clymu sy'n peri risg i unigolion a gedwir yn gaeth.

Mae'r gwiriadau lles y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn eu cynnal wrth ymweld â'r Ddalfa fel a ganlyn:
- A ydynt yn cael eu trin yn rhesymol?
- A ydynt wedi cael gwybod am eu hawliau cyfreithiol a hawliau ymwelwyr?
- A ydynt yn deall eu hawliau fel yr eglurwyd iddynt?
- A oes rhywun wedi cael gwybod eu bod yn cael eu cadw'n gaeth (os ydynt wedi gofyn am hyn)?
- A ydynt wedi gweld cyfreithiwr (os ydynt wedi gofyn am hyn)?
- A ydynt wedi cael cynnig bwyd/diod neu a ddarparwyd bwyd/diod iddynt?
- A ydynt wedi gofyn am sylw meddygol / wedi cael sylw meddygol os oes angen?
- A ydynt wedi cael mynediad i gyfleusterau toiled / hylendid / ymolchi?
- A ddarparwyd dillad gwely / dillad glân / blanced, os oes angen?

- A oes cyfnodau gorffwys addas a/neu ymarfer corff ar gael, os yn briodol?